

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, ABERCYNON)**

**GORCHYMYN (DIDDYMU A CHYFYNGIADAU AROS) 202\***

**DYMA HYSBYSIAD** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1,2 a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer galluogi arall, a'i effaith fydd:

1. Diddymu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sydd wedi'i nodi yn Atodlen 1
2. Cyflwyno'r cyfyngiadau aros wedi'u nodi yn Atodlen 2
3. Cyflwyno cyfyngiadau aros rhwng 8.30am a 6.30pm fel sy wedi'i nodi yn Atodlen 3

Mae modd archwilio copi o'r dogfennau perthnasol ar-lein: [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)

Rhaid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig ynghyd â'r rhesymau dystyn nhw, mewn ysgrifen, at y Rheolwr Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU, neu drwy e-bost: [GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk) erbyn 7 Ionawr 2022

**Atodlen 1 – Diddymu**

1. Caiff "Gorchymyn (Cyfyngiadau Aros) (Heol Aberdâr, Abercynon) 2017" Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei diddymu'n llwyr


**Atodlen 2 – Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

1. **Y ffordd ddi-enw rhwng Heol Newydd a Heol Abercynon**
  - a. Ochr y de, o'i chyffordd ogleddol â Heol Abercynon hyd at ei chyffordd ddeheuol â Heol Abercynon, pellter o 106 o fetrau
  - b. O'r ffin ddwyreiniol wrth 120 Heol Abercynon, tuag at y de-ddwyrain, wedyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin am 111 o fetrau, cyn mynd ymlaen o amgylch ochr fewnol y tro cam
  - c. Ochr y gogledd-ddwyrain, o Bont y Rheilffordd, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol, am bellter o 74 o fetrau
  - d. Ochr y gogledd-ddwyrain, o'i chyffordd â Heol Abercynon i gyfeiriad y gogledd-orllewin, am bellter o 17 o fetrau
2. **Heol y Blanhigfa**
  - a. Ochr y gogledd-orllewin, o'i chyffordd â Ffordd Aberpennar, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 32 o fetrau
  - b. Ochr y de, o'i chyffordd â Ffordd Aberpennar, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 26 o fetrau
3. **Ffordd Aberpennar**
  - a. Ochr y dwyrain, o bwynt gyferbyn â ffin ddeheuol 81 Ffordd Aberpennar, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 22 o fetrau
  - b. Ochr y gorllewin, o'i ffin ddeheuol â 81 Ffordd Aberpennar, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 22 o fetrau
4. **Heol Aberdâr**
  - a. Ochr y de-ddwyrain, o ochr de-orllewin ei chyffordd â Stryd Nash, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 40 o fetrau
  - b. Ochr y de-ddwyrain, o bwynt gyferbyn â ffin gyffredin 35/36 Heol Aberdâr i ochr dde-orllewin ei chyffordd â Stryd y Parc, am bellter o 19 o fetrau
5. **Stryd y Parc**
  - a. Ochr y gorllewin, o'r ffin ogleddol â Rhif 42a, Stryd y Parc, hyd at ei chyffordd â Heol Aberdâr, am bellter o 13 o fetrau
6. **Llys Tŷ'r Twyn**
  - a. Ochr y dwyrain, o'i chyffordd â Heol Aberdâr, i gyfeiriad y de yn gyffredinol, am 13 o fetrau
  - b. Ochr y gorllewin, o'i chyffordd â Heol Aberdâr, i gyfeiriad y de yn gyffredinol, am 9.5 o fetrau

**Atodlen 3 – Gwahardd Aros rhwng 8.30am a 6.30pm**

1. **Heol Aberdâr**
  - a. O ffin ogleddol Rhif 43 Stryd y Parc, i'r gogledd-ddwyrain am bellter o 5 metr

Dyddiad 15 Rhagfyr 2021



Andrew Wilkins  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, ABERCYNON)**

**(REVOCATION AND WAITING RESTRICTIONS) ORDER 202\***

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose to make an Order under Sections 1, 2 and 4 of the Road Traffic Regulation Act 1984 and of all other enabling powers, the effect of which will be to:

1. Revoke the Traffic Regulation Order specified in Schedule 1
2. Introduce waiting restrictions as described in Schedule 2
3. Introduce waiting restrictions between the hours of 8:30am to 6:30pm as described in Schedule 3

A copy of the relevant documents may be inspected online at [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)

Objections to the proposal together with the grounds on which they are made must be sent in writing to the Traffic Manager, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or by email on [trafficervices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficervices@rctcbc.gov.uk) by 7th January 2022

**Schedule 1 – Revocation**

1. The "Rhondda Cynon Taff County Borough Council (Aberdare Road Abercynon) (Waiting Restrictions) Order 2017" shall be revoked in its entirety


**Schedule 2 – Prohibition of Waiting At Any Time**

1. **The Unnamed Road between New Road and Abercynon Road**
  - a. Southern side, from its northern junction with Abercynon Road to its southern junction with Abercynon Road, a distance of 106 metres
  - b. From the eastern boundary of 120 Abercynon Road, in a general south-easterly, then north-westerly direction for a distance of 111 metres, proceeding around the inside of the hairpin bend
  - c. North eastern side, from the Railway Bridge, in a general south-easterly direction for a distance of 74 metres
  - d. North eastern side, from its junction with Abercynon Road, in a north-westerly direction for a distance of 17 metres
2. **Plantation Road**
  - a. North western side, from its junction with Mountain Ash Road, in a south-westerly direction for a distance of 32 metres
  - b. South eastern side, from its junction with Mountain Ash Road, in a south-westerly direction for a distance of 26 metres
3. **Mountain Ash Road**
  - a. Eastern side, from a point opposite the southern boundary of 81 Mountain Ash Road, in a south-easterly direction for a distance of 22 metres
  - b. Western side, from the southern boundary of 81 Mountain Ash Road, in a south-easterly direction for a distance of 22 metres
4. **Aberdare Road**
  - a. South eastern side, from the south western side of its junction with Nash Street, in a south-westerly direction for a distance of 40 metres
  - b. South eastern side, from a point opposite the common boundary of 35/36 Aberdare Road to the south western side of its junction with Park Street, a distance of 19 metres
5. **Park Street**
  - a. Western side, from the northern boundary of No 42a Park Street, to its junction with Aberdare Road, a distance of 13 metres
6. **Llys Ty'r Twyn**
  - a. Eastern side, from its junction with Aberdare Road, in a generally southerly direction for 13 metres
  - b. Western Side, from its junction with Aberdare Road, in a generally southerly direction for 9.5 metres

**Schedule 3 – Prohibition of Waiting between 8:30am – 6:30pm**

1. **Aberdare Road**
  - a. From the northern boundary of No. 43 Park Street, north eastwards for a distance of 5 metres

Dated 15 December 2021



Andrew Wilkins  
Director of Legal Services  
The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40 2XX